

# AcademiWales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Adroddiad Blynyddol 2021-22



#UnGwasanaethCyhoeddusCymru

# Cynnwys

Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol 2021-22. Fe'i hysgrifennwyd fel llinell amser sy'n tynnu sylw at ein prif lwyddiannau yn ystod pob cyfnod o dri mis.

Trosolwg y Cyfarwyddwr	3
Ebrill – Mehefin 2021	6
Gorffennaf – Medi 2021	9
Hydref – Rhagfyr 2021	11
Ionawr – Mawrth 2022	14

Gallwch ddysgu mwy amdanon ni, y gwaith rydyn ni'n ei wneud, gyda phwy rydyn ni'n gweithio a'n gwerthoedd trwy ymweld â'n gwefan:

[gov.wales/academiwales](http://gov.wales/academiwales)

Dyluniad y clawr gan Niki Bedford, Academi Wales

# Trosolwg y Cyfarwyddwr

## Alex Walters, Cyfarwyddwr, Academi Wales



Mae'n wir bleser cyflwyno fy Adroddiad Blynyddol cyntaf un ar ran Academi Wales. Mae'n gyfnod gwirioneddol gyffrous i ni, ac ni allaf aros i rannu'r hyn sydd i ddod yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Mae 2022 wedi rhoi cyfle inni bwysu a mesur cwpl o flynyddoedd hynod brysur a heriol. Yn ystod y pandemig, dan arweiniad medrus Paul Schanzer, cafodd Academi Wales y dasg heriol o droi ei rhaglenni, dosbarthiadau meistr a chyrsgiau wyneb yn wyneb (ac yn aml rhai preswyl) adnabyddus ac uchel eu parch, yn ddigwyddiadau rhithwir. Mae'r ystadegau yn dweud y cyfan – edrychwch ar y dudalen nesaf, 'Cipolwg ar ein blwyddyn'. Mae'r gwaith paratoi a wnaed gan y tîm yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig yn sicr wedi dwyn ffrwyth; gyda digwyddiadau rhithwir hollol wych, gan gynnwys ein hail rownd o ysgolion haf ac ysgolion gaeaf rhithwir. Yr ysgol haf

ddiweddar oedd y rhaglen rithwir fwyaf dymunol i mi ei mynychu erioed. Rydym wedi croesawu ein hail garfan ar gyfer y Rhaglen Graddedigion Cymru Gyfan, ac rydym yn falch o weld ein graddedigion yn ffynnu yn eu lleoliadau gwaith ac yn eu hastudiaethau Gradd Meistr. Hyfryd oedd gweld digwyddiad sefydlu'r graddedigion yn cael ei gynnal mewn modd hybrid; trwy gyflwyno llawer o'r cynnwys ar-lein, ond eto yn eu dwyn nhw ynghyd ar gyfer y gweithgareddau tîm. O'm safbwynt i, mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd meddwl o ddifri am ddyfodol y ddarpariaeth rithwir ac wyneb yn wyneb; mae angen i ni ddatblygu ein cynlluniau at y dyfodol yn seiliedig ar yr hyn y mae ein cynrychiolwyr eu hangen, a'r hyn sy'n gweddu orau i'r cynnwys, yn hytrach na mabwysiadu un dull penodol.

Dim ond ers diwedd 2021 yr wyf wedi bod yn rhan o Academi Wales, ond yn barod gallaf weld yr effaith y mae'r sefydliad bach hwn yn ei gael ledled Cymru ar y rhai sy'n arwain. Yn ystod fy chwe mis cyntaf rwyf wedi treulio cryn amser yn siarad â rhanddeiliaid allweddol am Academi Wales: am y pethau rhagorol rydym yn eu gwneud, ac am ffyrdd i wella. Mae'r negeseuon yn gyson – mae cynnyrch a rhaglenni Academi Wales yn rhai uchel eu parch sydd ag enw rhagorol. Mae yna gyfleoedd cyffrous i Academi Wales ddatblygu ei darpariaeth ymhellach er mwyn cefnogi arweinwyr yn fwy effeithiol fyth yn ein byd cymhleth a chythryblus.

Wrth edrych i'r dyfodol, ac wrth i ni ddod allan o'r pandemig, rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â mwy ohonoch mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb a hybrid. Bydd mwy o newyddion yn y man ynglŷn â'n dathliadau pen-blwydd yn 10 oed yn yr hydref.

# Cipolwg ar ein blwyddyn

Cyllideb  
£955k



2,189  
o gynrychiolwyr



Cost gyfartalog

i'w gyflawni yn cyfateb i

£301.05

fesul  
cynrychiolydd



61%

o gynnydd  
mewn  
defnyddwyr  
yn cofrestru ar ein  
gwefan



8%

o gynnydd mewn  
edrychiadau  
ar draws pob un o'n  
tudalennau gwe

Gwnaethom gyflawni



o weithdai,  
digwyddiadau,  
cyrsgiau a  
chynadleddau



6,822

o ddilynwyr Twitter, a



6,928

o danysgrifwyr i'n  
Bwletin Cyfleoedd

38,473

o bobl wedi gwyllo  
ein fideos YouTube

Dyna gyfanswm  
amcangyfrifedig  
o amser gwyllo o

8,100 awr!



# Ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth

## Rhagarweiniad

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein rhaglenni yn agored ac yn hygyrch, fel y gallwn gefnogi datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'n hanfodol ein bod yn monitro ac yn dadansoddi gwybodaeth am amrywiaeth, fel y gallwn sicrhau bod ein harferion recriwtio a marchnata rhaglenni yn deg ac yn dryloyw, ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.

Rydym yn ymgorffori cwestiynau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o'n ceisiadau digwyddiadau, ac eithrio digwyddiadau a sesiynau hyfforddi pwrpasol. Heb gynnwys digwyddiadau eithriadig, bu cyfanswm o 2,801 o geisiadau yn 2021-22. Mae'r ffigwr hwn yn sail i'r canrannau sydd yn adroddiad yr adran hon.

### Ethnigrwydd

- Fe wnaeth 89% o ymgeiswyr ddisgrifio eu grŵp ethnig fel 'Gwyn: Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig o Ogledd Iwerddon/Prydeinig'.
- Yr ail gategori mwyaf oedd y rhai oedd yn uniaethu fel 'Unrhyw grŵp ethnig arall' (3.4%).

### Rhywedd

- Fe wnaeth 74.2% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain fel 'Benywaidd'.
- Fe wnaeth 23.8% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain fel 'Gwrywaidd'.

### Anabledd

- Fe wnaeth 10.7% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain fel unigolyn â chyflwr iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu salwch oedd yn para neu y disgwylid iddo bara 12 mis neu fwy.
- Dywedodd 4.1% o ymgeiswyr bod eu cyflwr neu salwch yn amharu ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau pob dydd.

### Crefydd

- Fe wnaeth 45.7% o ymgeiswyr ddatgan nad oedd crefydd ganddynt.
- Yr ail gategori mwyaf oedd y rhai oedd yn uniaethu fel Cristnogion (43.5%).

### Statws priodasol

- Fe wnaeth 57.7% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain yn briod neu mewn partneriaeth sifil.
- Yr ail gategori mwyaf oedd y rhai oedd yn datgan eu bod yn sengl (20.5%).

## Gwybodaeth bellach

Nid ydym yn casglu gwybodaeth ar gyfer digwyddiadau pwrpasol am nad ydym yn chwarae rhan mewn dethol y cynrychiolwyr. Nid ydym yn casglu gwybodaeth ar gyfer sesiynau hyfforddi oherwydd natur yr hyn sy'n cael ei gynnig.

# Ebrill – Mehefin 2021

## Gwelliant Parhaus

### Sesiynau Codi Ymwybyddiaeth o'r Economi Gylchol

Fe wnaethom barhau i archwilio pob cyfle i gydweithio â'n cymheiriaid gweision sifil. Buom yn gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr Datblygu Polisi Economi Gylchol Llywodraeth Cymru i gyflwyno ar y cyd sesiwn codi ymwybyddiaeth ar Yr Economi Gylchol. Rhoddodd y digwyddiad rhyngweithiol poblogaidd hwn gyflwyniad i gynrychiolwyr am yr economi gylchol mewn cyd-destun Cymreig.

Mae deall sut mae 'ymgysylltu' a 'chyfranogi' a 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' wrth wraidd ein hymwneud â'r pwnc, yn ogystal â sut y gallwn ni i gyd gyfrannu a chael yr effaith mwyaf posibl. Fe wnaeth y sesiwn gynnwys astudiaethau achos o Gyrchfan Parc Cenedlaethol Bluestone a Chaffi Trwsio Cymru hefyd.

*Adborth: "Mae gan lawer o bobl ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y mentrau economi gylchol. Gwnaeth tîm LIC waith da wrth fynd gam ymhellach gyda'r ymgynghori yn hytrach nag ymgynghori ar y cynnyrch gorffenedig yn unig."*

## Talent ac Olyniaeth

### Ysgol Haf Arweinyddiaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 2021

Cynhaliodd Academi Wales yr Ysgol Haf Arweinyddiaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru rithwir fyw o 22 i 24 Mehefin 2021. Yn ei 16eg blwyddyn fe wnaethon ni gynllunio'r rhaglen yn benodol i ddiwallu anghenion datblygu allweddol arweinwyr Cymru, a'r rhai sy'n gweithio o fewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol Cymru. Er mwyn cefnogi trefniadau a chyflwyno Ysgol Haf 2021, bu Academi Wales yn gweithio ar y cyd â chwmni cynhyrchu annibynnol 'Spencer David Productions'.

Gan dynnu ar wybodaeth ac arbenigedd cymuned glodfawr o siaradwyr rhyngwladol, thema drosfwaol Ysgol Haf 2021 oedd, 'Adennill, Adnewyddu, Adfywio – Llwybr tuag at y dyfodol newydd'.

Bu'r rhaglen rithwir rhyngweithiol dri diwrnod yn gyfle i arweinwyr ganolbwyntio ar ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r hyn mae'n ei olygu o ran arwain mewn argyfwng a newid.

Wedi'i dylunio fel rhaglen 'ymestyn', roedd yn gyfle unigryw i adolygu ac adnewyddu sgiliau cyfredol, a meithrin gwybodaeth a mewnwleidiad newydd o ran arferion arwain blaengar. Roedd y gynulleidfa yn cynnwys 218 o gyfranogwyr, a 20 o hwyluswyr yn darparu cymorth, yn cynrychioli 89 sefydliad o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, roedd nifer cyfyngedig o leoedd a chafodd y rhain eu cynnig drwy broses ddethol gystadleuol.

Yn ystod y rhaglen dri diwrnod bu cynrychiolwyr yn mynychu chwe sesiwn hwyluso ac yn gwrandao ar naw prif siaradwr. Derbyniodd yr Ysgol Haf gymorth naw hyfforddwr achrededig a gyflwynodd 321 awr o sesiynau blasu hyfforddi.

Derbyniodd Ysgol Haf 2021 adborth rhagorol, gyda 82% o gynrychiolwyr yn rhoi sgôr o 4 neu 5 allan o 5 i'r digwyddiad.

Gofynnodd y gwerthusiad i gynrychiolwyr nodi sgôr rhwng 1 a 5, gydag 1 yn wael a 5 yn rhagorol, ac roedd 82% o'r adborth yn sgôr 4 neu 5.

## Datblygu Arweinyddiaeth a Newid

### Saith Arfer Pobl Hynod Effeithiol

Gydag ymhell dros 100 o geisiadau am y lleoedd cyfyngedig ar raglen agoriadol ar-lein 'Saith Arfer Pobl Hynod Effeithiol', unwaith eto fe ddangosodd y profiad dysgu hynod bleserus a thrawsnewidiol hwn fod egwyddorion digyfnewid Dr. Steven R. Covey o ran effeithiolrwydd personol a phroffesiynol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfoes yn y cyfnod hwn o adfyd, ansicrwydd a newid.

Dros gyfnod o bythefnos, mewn chwe gweithdy 'rhithwir' 2 awr a hanner yr un, bu cyfranogwyr o sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector ledled Cymru yn archwilio arferion ac egwyddorion arwain allweddol oedd yn eu hysgogi a'u hysbrydoli i:

- fentro;
- gwella cyfathrebu rhyngpersonol;
- sefydlu mwy o ymddiriedaeth;
- cryfhau perthynas pobl â'i gilydd;
- cynyddu dylanwad;
- cydbwysu blaenoriaethau allweddol.

Dyma enghreifftiau o'r adborth:

*"Fe wnaeth y cwrs wthio'r ffiniau mewn modd cadarnhaol o ran sut y gellir cyflwyno hyfforddiant mewn modd rhithwir."*

*"Mae Academi Wales wedi gwneud gwaith gwych wrth addasu'r cwrs yn un rhithwir. Dydy hynny ddim yn beth hawdd ac mae'n galw am lawer mwy o waith a chanolbwyntio gan yr hyfforddwr a oedd yn bendant wedi dygymod â'r her; gwnaeth y tîm gweinyddol waith gwych hefyd gyda'u cymorth technegol."*

*"Roedd y cwrs yma'n eithriadol."*

*"Drwyddo draw, roedd y cwrs yn anhygoel, diolch am y cyfle i gael cymryd rhan yn y cwrs hwn."*

*"Cwrs hynod o ddefnyddiol – dyna'n union roeddwn ei angen ar hyn o bryd er mwyn symud pethau ymlaen a datblygu dulliau i'm cefnogi i fod yn arweinydd effeithiol."*

## **Sefydlu dau Rwydwaith Cymheiriaid-i-Gymheiriaid gwahanol ar gyfer Arweinwyr yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru**

Mewn ymateb i angen a nodwyd gan Uwch Arweinwyr ledled Cymru, sefydlodd Academi Wales ddau rwydwaith Cymheiriaid-i-Gymheiriaid gwahanol ddechrau mis Mehefin 2021 i weithredu fel gofod anffurfiol er mwyn cefnogi, cysylltu a chryfhau perthynas pobl â'i gilydd a helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau arwain sy'n ein hwynebu nawr mewn ymateb i'r pandemig COVID.

Roedd un rwydwaith yn agored i Brif Weithredwyr, Cadeiryddion/Arweinwyr, a rwydwaith arall ar gyfer Cyfarwyddwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Cynhaliwyd y cyfarfodydd rhwydweithiau cyntaf ym mis Mehefin 2021 ac yn dilyn adborth cadarnhaol, cynhaliwyd pedair sesiwn arall yn 2021.

*Adborth: "Bu'n sesiwn fewnweledol iawn yn tanlinellu ymhellach bwysigrwydd neilltuo amser i ni ein hunain, a manteision defnyddio gofod anffurfiol i rannu ac i wrando ar ein gilydd. Er nad oedd agenda ffurfiol, roedd y sgwrs yn llifo ac yn canolbwyntio ar gynnal/gwella lles drwy gyfnodau heriol, ac roeddem i gyd o'r farn ei fod yn fuddiol."*

Mae'r rhwydweithiau eisoes wedi rhoi cyfleoedd i Arweinwyr gefnogi ei gilydd, a rhannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau'r sector cyhoeddus, a byddant yn parhau i gynnig dull personol rhagweithiol o fynd i'r afael â phroblemau cymhleth mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

# Rhaglen Graddedigion Cymru Gyfan

## Lansiad recriwtio a sesiynau gwybodaeth

Dechreuwyd hyrwyddo Rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan 2022 drwy gyfrwng ffeiriau gyrfaoedd, ymgynghorwyr gyrfaoedd prifysgolion a'r cyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth cyn y lansiad ac yn ystod ymgyrch fyw y rhaglen, yn disgrifio'r broses ymgeisio a'r gefnogaeth fydd ar gael i ymgeiswyr.

Roedd hyn yn cynnwys ymchwilio a gweithredu ffyrdd y gallem gael gwared ar unrhyw rwystrau a allai atal pobl rhag ymgeisio er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn deg ac yn hygyrch i bawb.

Agorwyd y broses ymgeisio am Raglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan 2022 ar 28 Mehefin 2021 gan achosi cryn ddiddordeb.

# Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Fwrdd

## 8 Mehefin 2021 – Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE) Gweithdy Ailosod

Ym mis Mehefin, hwylusodd Academi Wales weithdy gydag aelodau o SOLACE Cymru Wales. Cynlluniwyd y sesiwn i archwilio rôl a pherthynas SOLACE ac arweinyddiaeth llywodraeth leol yn y dyfodol, ynghyd â chydweithwyr mewn llywodraeth leol, ar draws sectorau ac ar draws y Llywodraeth.

Roedd amseriad y sesiwn hon yn arwyddocaol yn dilyn etholiadau diweddar gyda Llywodraeth Cymru newydd yn dysgu o COVID-19 wrth bontio o ymateb i adfer ac archwilio ffyrdd newydd o weithio er mwyn adnewyddu a chryfhau partneriaethau.

## 2 Gorffennaf 2021 – Gweithdy Byrddau Iach – Bwrdd Rhwydwaith Arennol Clinigol Cymru (WRCN)

Hwylusodd Academi Wales weithdy Byrddau Iach gyda Bwrdd y WRCN, sy'n gweithredu fel is-bwyllgor Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Mae'r modd y mae Arweinwyr y Sector Cyhoeddus yn cyfrannu at eu Bwrdd yn elfen hanfodol wrth feithrin y diwylliant ystafell bwrdd gorau er mwyn cyflawni perfformiad uchel.

Roedd y gweithdy Byrddau Iach yn gyfle i aelodau Byrddau archwilio'r heriau sydd o flaen byrddau mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn gyfle i fagu dealltwriaeth o fyrrddau iach, sut y maent yn edrych a'r hyn maent yn ei wneud, ac i nodi sut y gallant gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol i greu bwrdd iach ynghyd â deall y camau i wella perfformiad y bwrdd.

Roedd Aelodau Byrddau yn gallu hunanasesu perfformiad eu byrddau eu hunain, gan adnabod elfennau Bwrdd iach a'r ffyrdd y gallant wella neu gynyddu eu perfformiad eu hunain a chyfrannu tuag at gynyddu effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.



# Gorffennaf – Medi 2021

## Gwelliant Parhaus

### Economi Gylchol: Tu Hwnt i Ailgylchu

Cyflwynwyd y digwyddiad codi ymwybyddiaeth hwn mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn y Gwasanaeth Sifil Lleol gyda ffocws ar ddiffinio'r hyn yr ydym yn ei olygu wrth sôn am 'Economi Gylchol'. Mae economi gylchol yn parhau i ddefnyddio adnoddau a deunyddiau cyhyd ag y bo modd ac yn osgoi gwastraff o unrhyw fath. Bydd hyn yn golygu symud o 'economi linol' sy'n rhagdybio cyflenwad cyson o adnoddau naturiol neu'r diwylliant cymryd-cynhyrchu-defnyddio-gwaredu sy'n seiliedig ar echdynnu adnoddau, cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau, a gwaredu gwastraff defnyddwyr.

Y neges drosfwaol o'r digwyddiad hwn oedd pwysigrwydd yr angen i symud i economi gylchol i alluogi cyflawni canlyniadau amgylcheddol allweddol megis lleihau ein hallyriadau carbon a'n gor-ecsbloetio o adnoddau naturiol, i helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chael effaith gadarnhaol ar wella canlyniadau economaidd a chymdeithasol.

## Datblygu Arweinyddiaeth a Newid

### Deallusrwydd emosiynol a'r normal newydd ar gyfer arweinwyr heddiw

Mae datblygu deallusrwydd emosiynol yn hanfodol i allu rheoli a chefnogi cydweithwyr sy'n gweithio o gartref yn llwyddiannus. Mae pobl sy'n meddu ar radd uchel o ddealltwriaeth emosiynol yn gwybod yr hyn maent yn ei deimlo, ystyr eu hemosiynau, a sut gall yr emosiynau hyn effeithio ar bobl eraill.

Fodd bynnag, mae deall sut i ddangos a datblygu deallusrwydd emosiynol ar-lein – tra bod pobl yn cydbwysu bywyd cartref a gweithio mewn amgylchedd rhithwir – yn her sy'n wynebu'r rhan fwyaf o bobl nawr yn fwy nag erioed.

Ailgynlluniwyd ein gweithdy i adlewyrchu effaith y pandemig a chaiff ei gyflwyno'n rhithiol i sicrhau ein bod yn gallu ymgysylltu â Chymru gyfan.

Trefnwyd tri gweithdy ar gyfer 2021 – pob un ohonynt yn llawn – a chafodd gweithdy ei gyflwyno hefyd fel rhan o Gynhadledd Hyfforddi Rithwir Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 2021. Trefnwyd gweithdai ychwanegol yn 2022 a bydd Deallusrwydd Emosiynol wrth wraidd ein rhaglen arweinyddiaeth yn y dyfodol.

### Sefydlu'r Rhwydwaith Cymheiriaid-i-Gymheiriaid cyntaf ar gyfer GIG Cymru

Yn dilyn digwyddiad diweddar sefydlu Aelodau Annibynnol y Bwrdd, sefydlwyd rhwydwaith Cymheiriaid-i-Gymheiriaid newydd yn benodol ar gyfer Aelodau Cysylltiol ac Aelodau Annibynnol Bwrdd GIG Cymru. Bydd hyn yn cynnig amgylchedd diogel i gefnogi aelodau newydd y Bwrdd yn eu rôl newydd, a bydd yn gweithredu fel gofod anffurfiol i gysylltu a chryfhau perthynas pobl â'i gilydd.

### Newydd – Datblygiad yn Seiliedig ar Gryfderau

Gwahoddwyd Academi Wales i gefnogi tîm Datblygiad Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru o Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol mewn archwilio sut y gallent ddatblygu eu gallu ymhellach i ymateb i flaenoriaethau cyfnewidiol drwy dynnu ar gryfderau pob aelod o'r tîm a manteisio'n well ar gryfderau cyfunol y Tîm.

Bu unigolion yn cwblhau'r proffil Cryfderau Arbenigwr cyn mynychu gweithdy ar gyfer eu Cangen o'r Tîm Rhanbarthol.

Bu'r gweithgareddau yn y sesiynau hyn yn helpu i gynnig dealltwriaeth ddyfnach o'r canlyniadau ar lefel yr unigolyn ac ar lefel y tîm. Y cam nesaf yw ymgorffori'r dysgu drwy weithredu ffyrdd o weithio sy'n cefnogi dull sy'n seiliedig ar gryfderau.

Bu dau aelod o dîm Academi Wales yn ymgymryd ag achrediad yn yr offeryn Proffil Cryfderau a ddarperir gan Cappfinity, sydd wedi'i gymeradwyo a'i weithredu gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynodd Cappfinity y gweithdy cychwynnol gyda'r uwch dîm rheoli a bu'r ddau hwylusydd Academi Wales yn arsylwi ac wedyn yn cyflwyno'r gweithdai ar gyfer y pedair adran. Mae hyn yn cynnig cyfle newydd i gefnogi'r Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â pha ddull yw'r un gorau i'w fabwysiadu.


# Rhaglen Graddedigion Cymru Gyfan

## Nithio a chanolfannau asesu rhithwir

Bu'r tîm graddedigion yn brysur iawn yn cefnogi'r camau recriwtio ar gyfer Rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan 2022. Agorwyd y Rhaglen i geisiadau ar 28 Mehefin a'i chau ar 12 Gorffennaf, a derbyniwyd nifer fawr o geisiadau. Ar ôl nithio ar sail cymhwyster sylfaenol, gwahoddwyd ymgeiswyr cymwys i gwblhau asesiad ar-lein yn seiliedig ar gryfderau rhwng 28 Gorffennaf a 6 Awst. Trefnwyd canolfannau asesu rhithwir/cyfweliadau ar y cyd ar gyfer mis Hydref 2021.

## Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Bwrdd

### 15, 16, 22 a 23 Medi 2021 Rhaglen Sefydlu Aelodau Bwrdd Annibynnol GIG Cymru



Mewn partneriaeth â Swyddogion Llywodraeth Cymru ac Uwch Arweinwyr o Wasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, cyflwynwyd pedwar modiwl y rhaglen hon gan Academi Wales yn ystod mis Medi.

Cynlluniwyd y rhaglen ar gyfer Aelodau

Cysylltiol ac Aelodau Annibynnol y Bwrdd, newydd eu penodi, er mwyn darparu'r gefnogaeth a'r wybodaeth berthnasol i ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau ac amlinellu'r hyn a ddisgwylir o'r rôl aelod o'r Bwrdd, i'w helpu i fynd i'r afael â'r heriau penodol a chyflawni'r newidiadau i'r gwasanaeth sydd eu hangen ar draws GIG Cymru a'r blaenoriaethau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r rhaglen ryngweithiol rithwir hon yn cynnig cyfleoedd i gynrychiolwyr glywed gan gyn-aelodau Bwrdd profiadol ac archwilio sut i berfformio'n effeithiol mewn cyfnodau heriol. Mae'n sail i'r wybodaeth sylfaenol y mae aelodau yn ei meithrin, gan roi cyfle iddynt gymryd rhan mewn trafodaeth ar y ffordd orau o reoli effeithiau newidiadau a gwelliannau mewn gwasanaeth.

Ymhlith modiwlau'r Rhaglen mae:

- Cyflwyniad i ethos, blaenoriaethau a dyheadau GIG Cymru.
- Llywodraethu yn y GIG a'ch rôl fel Aelod Cysylltiol ac Aelod Annibynnol o'r Bwrdd.
- Ystyriaethau ansawdd, perfformiad, cynllunio a chyllid.
- Pwysigrwydd sicrwydd a rôl y Bwrdd.

# Hydref – Rhagfyr 2021

## Gwelliant Parhaus

### Digwyddiad Adeiladu Cyfoeth Cymunedol

Wedi'i gyflwyno gan Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES), mae Adeiladu Cyfoeth Cymunedol yn ymdrin â datblygiad economaidd lleol mewn modd sy'n canolbwyntio ar bobl a'r gymuned. Mae'n ailgyfeirio cyfoeth yn ôl i'r economi leol ac yn rhoi rheolaeth a manteision yn nwylo pobl leol.

Mae'r dull wedi'i wreiddio yn y traddodiad democrataidd cymdeithasol Ewropeaidd, lle mae'r wladwriaeth yn gweithio i ddiogelu gwerthoedd cyhoeddus a sicrhau canlyniadau da i ddinasyddion. Mae dull y DU wedi tynnu ysbrydoliaeth o waith a arloeswyd gan *The Democracy Collaborative* yn Cleveland, Ohio a'r cydweithfaoedd Mondragon yng ngwlad y Basg.

Ar ôl gweithio gyda Preston ers 2012 ar yr hyn a elwir yn 'Fodel Preston', mae CLES bellach yn cefnogi lleoedd ledled y DU a thu hwnt i adeiladu cyfoeth cymunedol.

Dyma rai o fanteision dysgu'r gweithdy rhyngweithiol hwn:

- Cyflwyniad i theori ac arfer Adeiladu Cyfoeth Cymunedol.
- Enghreifftiau ac astudiaethau achos o Adeiladu Cyfoeth Cymunedol ar waith.
- Trafodaeth ar berthnasedd Adeiladu Cyfoeth Cymunedol yng nghyd-destun polisi Cymru.
- Archwilio'r potensial i 'godi ymwybyddiaeth' ymhellach ledled Cymru o arfer Adeiladu Cyfoeth Cymunedol.

Deilliodd ein cyfranogiad o'n sganiau gorwel sy'n chwilio am themâu, syniadau, cyfleoedd a rhannu gwybodaeth y gallwn eu cyflwyno i'n Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan. Rhai o themâu'r sesiwn hon a oedd yn gorgyffwrdd oedd yr economi sylfaenol, caffael sector cyhoeddus, yr economi gylchol a dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r teitl pwnc a'r themâu sy'n gorgyffwrdd yn gweddu'n dda i agwedd cynaliadwyedd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Ymgofrestrwyd cyfanswm o 84 o gynrychiolwyr ar gyfer y digwyddiad hwn a gynhaliwyd 30/11/21.

### Digwyddiad Codi Ymwybyddiaeth ar Effaith Egwyddorion Rheoli Darbodus mewn Lleoliadau Addysgol

Bu'r sesiwn hon yn canolbwyntio ar effaith cyflwyno a gweithredu egwyddorion rheoli Darbodus mewn lleoliad addysgol. Gofynnwyd y cwestiwn: a all methodoleg a ddatblygwyd ac a ddefnyddir yn bennaf yn y diwydiant gweithgynhyrchu gael ei weithredu'n llwyddiannus yn y diwydiant gwasanaethau, megis mewn addysg? Mae'r ysgol 'astudiaethau achos' wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â Toyota UK i ddatblygu diwylliant, dealltwriaeth a brwdfrydedd i ddefnyddio egwyddorion Darbodus fel rhan o'r drefn ddyddiol yn yr ysgol. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu gwybodaeth yr awdur (a oedd gynt yn bennaeth yr ysgol) o lygad y ffynnon a thystiolaeth a gasglwyd trwy gyfrwng holiaduron diennw, cyfweiliadau unigol â staff ar wahanol lefelau yn yr ysgol a thrwy arsylwi ymarferion.

## Talent ac Olyniad

### Cynhadledd Hyfforddi Rithwir Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 2021

Gan adeiladu ar lwyddiant y blynyddoedd blaenorol roeddem yn falch o gynnal Cynhadledd Hyfforddi Rithwir Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 2021.

Yn dilyn llwyddiant 2020, cynhaliwyd y digwyddiad ar-lein ac roedd y gynulleidfa yn cynnwys 100 o ymarferwyr hyfforddi a mentora ffurfiol ac anffurfiol wedi'u dwyn ynghyd o 50 sefydliad ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru.

Mae pwysigrwydd hyfforddi yn hynod arwyddocaol wrth gefnogi eraill i fagu meddylfryd, gwneud penderfyniadau, a chynllunio at y dyfodol mewn modd mwy clir ac mae'n cefnogi ochr ddynol yr heriau sy'n ein hwynebu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr ansicrwydd a'r cymhlethdodau y bydd raid i ni eu hwynebu dros y misoedd nesaf a thu hwnt ar ein taith drwy'r byd presennol a thrwy fydd ôl-bandemig. Roedd y thema '*Hyfforddi ar gyfer y normal newydd – heriau cyfredol ac ôl-bandemig*' yn ymdrin â rhai o'r heriau hyn.

Roedd y dulliau a'r technegau a gyflwynwyd drwy gydol y digwyddiad yn canolbwyntio ar feithrin arferion sy'n bodoli eisoes ymhlith hyfforddwy'r i ymateb i'r heriau yn ystod cyfnodau o newid ac ansicrwydd ar gyfer unigolion a thimau. Roedd nifer o'r cynrychiolwyr yn aelodau o Rwydwaith Hyfforddi Cymru Gyfan.

Roedd y rhaglen yn cynnwys amrywiaeth o brif siaradwyr a gweithdai ysbrydoledig gan gynnwys:

- Allison Holland, 'Meddwl yn Wydn: Dulliau'n Seiliedig ar yr Ymennydd i Ddatblygu Gwynnwch'
- Dr Robert Holden, 'Mae Newid yn Digwydd: 5 Awgrym Hyfforddi ar gyfer y Normal Newydd'
- Bethan Emanuel, 'Hyfforddi ar gyfer y normal newydd – dulliau ymarferol'

Cafodd y digwyddiad groeso brwd gan y cynrychiolwyr:

*"Dyna un o'r cynadleddau gorau i mi eu mynychu, cymysgedd gwych o gynnwys gan y prif siaradwyr a sesiynau grŵp gwych hefyd, diolch yn fawr, mae gen i lot o waith adfyfrio i'w wneud a dulliau newydd i'w defnyddio."* Iechyd Cyhoeddus Cymru

*"Cynnwys rhagorol. Dysgais fwy gan rai pobl yn fwy nag eraill, ond da oedd cael y trawstoriad i ddewis ohono. Amhrisiadwy o ran dysgu am wahanol safbwyntiau."* Coleg Penybont

Bellach, mae'r Gynhadledd Hyfforddi wedi ennill ei phlwyf fel un o'r digwyddiadau uchaf eu proffil yn nyddiadur gweithgareddau blynyddol Academi Wales a gellir ei chyflwyno'n llwyddiannus yn rhithwir neu'n fyw.



## ILM lefel 7 Rhaglen Hyfforddi a Mentora Weithredol

Bu Academi Wales yn cefnogi 24 o gyfranogwyr ar fwrsari wedi'i ariannu'n llawn o bob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i gwblhau cymhwyster achrededig ILM Lefel 7 Hyfforddi a Mentora. Cyflwynwyd y rhaglen ILM gan Brifysgol De Cymru ac mae'n darparu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i bob cyfranogwr fod yn hyfforddwr a mentor effeithiol fel rhan o'i rôl yn arwain ar lefel weithredol/uwch strategol.

## Datblygu Arweinyddiaeth a Newid

### Gwerthuso Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog

Mae gan Gymru rai o'r polisïau a'r strategaethau mwyaf datblygedig ac uchelgeisiol yn y byd ar gyfer hybu dwyieithrwydd. Mae Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn gynllun uchelgeisiol ar gyfer perchnogaeth o'r iaith dros Gymru gyfan.

Dechreuwyd rhaglen 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog' gan Academi Wales i gefnogi'r model newydd o arweinyddiaeth gwasanaeth cyhoeddus i Gymru – Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Roedd yn brosiect peilot a oedd yn cynnwys dau gam ac yn rhedeg o fis Mawrth 2020 i fis Awst 2021. Roedd y rhaglen yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth unigol a sefydliadol o ddatblygu i fod yn sefydliad sydd â diwylliant arwain cadarnhaol lle gall y Gymraeg ffynnu yn unol â strategaeth y Gymraeg 2050. Cynhaliwyd gwerthusiad allanol o'r peilot rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021.

Canfu'r Gwerthusiad fod cefnogaeth gref i'r rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog, ac yn benodol i'r rhesymeg y tu ôl i'r rhaglen i gefnogi a galluogi sefydliadau i ddatblygu diwylliant dwyieithog mwy cadarnhaol ac amlwg.

Croesawyd hyn yn unfrydol fel egwyddor arweiniol sy'n tanlinellu pwysigrwydd hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch yr hyn y gall sefydliadau ei wneud i weithredu'n ddwyieithog yn fwy 'naturiol'. Pwysleisiwyd na ddylent ffocysu ar safonau nac ar ruglder yn y Gymraeg, ond yn hytrach ar gynyddu amlygrwydd y Gymraeg ac annog ei defnydd anffurfiol.

Bydd cynlluniau'r dyfodol yn canolbwyntio ar sut i symud ymlaen â'r rhaglen ac ar opsiynau o ran sut i'w chyflwyno ar raddfa sy'n fwy na'r peilot. Bydd Academi Wales yn datblygu pecyn cymorth i fynd law yn llaw â'r rhaglen, sy'n tynnu sylw at astudiaethau achos a phrofiad bywyd go iawn y rhai sydd yn Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog – Cymuned Ymarfer.

Ymhlith elfennau'r rhaglen ar gyfer y garfan nesaf bydd – Gweithdy Uwch Noddwyr, modiwl rhagarweiniol, cam diagnostig – asesu cryfderau sefydliadau, meysydd i'w datblygu a rhannau o'r sefydliad sydd angen cymorth wedi'i dargedu, mynediad at arbenigedd i ddatblygu cynlluniau gweithredu, gweithio cymheiriaid-i-gymheiriaid, gwaith adolygu a gwerthuso a lledaenu'r dysgu yn ehangach.

### **Ymgorffori Arweinyddiaeth – Rhaglen Darpar Gyfarwyddwyr**

Roedd yn bleser i ni a'r cyfranogwyr gwrdd wyneb yn wyneb ar gyfer y gweithdy deuddydd hwn ym mis Tachwedd 2021.

Mae Paul King yn ymarferydd rhyngwladol mewn hyfforddi pobl i ddatblygu tri chymhwysedd arweinyddiaeth egniol allweddol:

1. **Cynwysoldeb** – y gallu i greu dealltwriaeth a'r ymdeimlad bod 'pawb ynghyd'.
2. **Gwrando Canoledig** – y gallu i wrando ar yr hyn a ddywedir heb ei gymryd yn bersonol.
3. **Dweud eich Dweud** – mynegi eich barn gydag eglurder a manwl gywirdeb wrth wneud safiad.

Fe wnaeth y cyfranogwyr fwynhau gweithio gyda'i gilydd a chael gwir ymdeimlad o bresenoldeb ei gilydd yn yr amgylchedd hwnnw ac addasu eu meddyliau, eu hegni a'u gweithredoedd er mwyn i'w presenoldeb a'u cyfathrebu greu mwy o effaith. Roeddent yn cydnabod y gwahaniaeth pan oeddent yn ganoledig – cyflwr niwtral sy'n cefnogi:

- Meddwl agored ar gyfer canfod yn glir.
- Calon agored er mwyn ennyn hunan-drugaredd a thrugaredd tuag at eraill.
- Craidd sy'n gadarn a chymwys.

Gall y ffordd yr ydym yn eistedd ac yn sefyll newid y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn siarad. Mae hyn yn newid y ffordd yr ydym yn cael ein portreadu gan bobl eraill ac yn cynnig y cyfle i ennyn mwy o ddealltwriaeth ac i wneud penderfyniadau mwy effeithiol.

# Ionawr – Mawrth 2022

## Gwelliant Parhaus

### Sylw ar y teledu i'n sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Menopos

Cafodd ein sesiynau 'Why Discuss the Menopause at Work?' sylw arbennig gan ITV ar y rhaglen *Wales at Six*.

Soniodd Kate Lewis, Cefnogwr Menopos ITV, am fantais y sesiynau a chyfweld ag arweinydd y sesiwn, Jayne Woodman, i sgwrsio am ei gwybodaeth a'i phrofiadau.

Menywod dros 50 oed yw'r grŵp sy'n tyfu gyflymaf yng ngweithlu'r DU. Bydd y rhan fwyaf o fenywod yn profi symptomau'r menopos. Gall rhai o'r rhain fod yn eithaf difrifol a chael effaith sylweddol ar weithgareddau pob dydd.

## Talent ac Olyniaeth

### Ysgol Aef Arweinwyr Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 2022

Cynhaliodd Academi Wales Ysgol Aef Arweinwyr Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru rhwng 1-4 Chwefror 2022. Roedd y gynulleidfa yn cynnwys 42 o uwch arweinwyr yn cynrychioli 33 sefydliad a phob un yn gweithio o fewn tair haen uchaf gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol Cymru. Bu'n gyfle i archwilio ffyrdd newydd o arwain a rheoli'r busnes a datblygu dulliau newydd o wella perfformiad.

Cynhaliwyd Ysgol Aef Arweinwyr Un Gwasanaeth Cyhoeddus 2022 ar ffurf rhaglen fyw ar-lein a rhithwir o ddysgu cyfunol yn rhoi cyfle i wrando ar siaradwyr ac academwyr o fri rhyngwladol sy'n arbenigwyr yn eu maes. Roedd pob un yn rhannu eu mewnwelediad, eu gwybodaeth a'u harbenigedd â'r gynulleidfa.

Ein huchelgais oedd atgyfnerthu a meithrin rhwydwaith o'r arweinyddiaeth uchaf ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i hwyluso rhwydwaith o ddysgu cydweithredol ledled Cymru sy'n treiddio y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth i gymunedau. Thema Ysgol Aef 2022 oedd 'Adennill, Adnewyddu, Adfywio - Llwybr tuag at y dyfodol newydd'.

Roedd y rhaglen 4 diwrnod yn gyfle i ffocysu ar ddyfodol arweinyddiaeth o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a'r hyn mae'n ei olygu o ran arwain allan o argyfwng, rheoli newid a diogelu gwasanaethau cyhoeddus at y dyfodol.

Bu'r rhaglen yn archwilio dulliau newydd o adeiladu gwasanaeth cyhoeddus sy'n fwy hyderus, gan barhau i ennyn gwerthoedd arweinyddiaeth cryf i greu llwybr a rennir allan o'r argyfwng hwn i ddyfodol newydd.

Dyma'r hyn a ddywedodd cynrychiolwyr:

*"Er yn rhithwir, roedd Ysgol Aef Academi Wales yn brofiad dysgu gwych. Bu llawer o waith meddwl y tu ôl i'r rhaglen a sut i saernïo profiad dysgu unigryw. Fel uwch arweinydd, roedd wedi fy ailfywiogi wrth dreulio amser i ffwrdd a chanolbwytio ar fy arweinyddiaeth."*

*"Mae'r Ysgol Aef yn rhoi'r cyfle i chi dyfu ac adfyfrio. Fel arweinwyr mae gwneud hyn yn hanfodol er mwyn i ni allu cefnogi ein timau a'n sefydliadau."* Chwarae Teg

*"Roedd yn fy atgoffa o'r angerdd a'r brwdfrydedd oedd gen i pan o'n i'n iau a'r angen i mi ymgysylltu â'r person hwnnw wrth i mi dyfu a datblygu."* Cyfoeth Naturiol Cymru

*"Dyna'n union oedd ei angen arnaf. Bu'n help i gyflwyno arferion da, cynnig amgylchedd i feddwl a da oedd gallu rhwydweithio/clywed profiadau pobl eraill. BIP Aneurin Bevan*

## Datblygu Arweinyddiaeth a Newid

### Sesiwn mewn partneriaeth â Swyddfa'r Prif Nyrs a Chwm Elan

Daeth Uwch Arweinwyr Nyrsio Iechyd Meddwl o bob cwr o Gymru ynghyd ym mis Chwefror 2022 ar gyfer digwyddiad deuddydd datblygu arweinyddiaeth a drefnwyd gan Academi Wales mewn partneriaeth â Swyddfa'r Prif Nyrs (Cymru) a Phorthdy Cwm Elan yng Nghanolbarth Cymru.

Gan gyfuno gweithgareddau awyr agored gydag egwyddorion ac arferion arwain a datblygu timau, heriwyd a chefnogwyd arweinwyr nyrsio i gamu allan o'u parth cysur a dysgu sgiliau a chaffael mewnwelediadau y gallent eu defnyddio, ac yn bwysicach fyth eu cymhwyso i'w rolau a'u cyfrifoldebau arwain unigol wrth drefnu a darparu gofal iechyd meddwl ac anabledd dysgu.

Un o uchafbwyntiau'r digwyddiad datblygu oedd 'cynulleidfa yng nghwmni' Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio (Cymru) a fu'n rhannu ei thaith arweinyddiaeth amrywiol ac ysbrydoledig, a'i phum blaenoriaeth ar gyfer nyrsio yng Nghymru yn ogystal â chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb ysgogol, llawn syniadau.

Derbyniodd y digwyddiad datblygu arweinyddiaeth werthusiadau rhagorol; fe wnaeth sawl cyfranogwr ddatgan ei fod yn brofiad dysgu hynod fuddiol, cofiadwy a thrawsnewidiol.

Cyflwynwyd sesiwn hefyd i'r Senedd i nodi Wythnos Dysgu yn y Gweithle 2022 (16-22 Mai), a oedd yn rhan o'u diwrnod 'Dysgu ac Arwain' rhyng-seneddol.



## Rhaglen Graddedigion Cymru Gyfan

### Wythnos Sefydlu Graddedigion

Ddiwedd mis Mawrth 2022, dechreuodd 17 o raddedigion a gafodd eu recriwtio'n llwyddiannus ar gyfer Rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, ar eu taith gyda Rhaglen Sefydlu wythnos o hyd.

Roedd y rhaglen sefydlu yn cynnwys nifer o gyfleoedd cyffrous megis cyflwyniad i'r rhaglen, gwybodaeth am eu cymhwyster Meistr Arweinyddiaeth, prif siaradwyr yn cynnwys Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru a thrafod pynciau megis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a'r Gymraeg.

Daeth yr wythnos i ben gyda gweithgareddau timau a sesiynau Dysgu a Datblygu, megis Seicoleg Gadarnhaol yng Nghwm Elan.

Bellach mae pob un o'r 17 o raddedigion wedi dechrau yn eu swyddi cyntaf gyda'u sefydliadau cynhaliol.